CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed GORFFENNAF 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Mrs. L Roberts. (Cadeiryddes) Cyng. R G Parry (Is-Gadeirydd) Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, G Jones, W R Parry, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. J E Lewis, D T Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 17eg MEHEFIN 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. G Jones.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Cafnau Blodau gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) a Bronheulog Bodffordd.)
Angen rhywun i edrych ar ei hol, chwynnu ydir angen mwyaf.
Gofyn nawr i Nigel Williams a fedr wneud y gwaith ond heb gael ateb yn ol.

Twyll Treth Cyngor.
Derbyniodd y Clerc neges gan aelod o Ward Bodwrog. R`oedd y neges yn cael ei rhoi mewn hyder diffinodus.
Dywedodd y Clerc y buasai yn parchu dymuniad y treth dalwr.
Cafwyd y manylion yn y cyfarfod gan y Clerc ac mae y Cynghorwyr yn wybodol o`r person / au mewn golwg.
Mae yn edrych fod tystioiaeth gryf o dwyll.
Nid ydyw y Cyngor am gofnodi enwau. Pasiwyd i anfon y wybodaeth ymalen i`r Cyngor Sir. Cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. W R Parry. Unfrydol.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Cyfarfod nesaf Nos Lun 8ed Medi 2025.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth. Cyng. J E Lewis fydd yn cynrychioli.

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Bydd yr Artist Clodwiw Pete Jones "Cynefin" yn agor Oriel Mon 21ain Mehefin 2025.
   Rhedeg hyd 27ain Gorffennaf 2025. Lansia y llyfr "Cynefin"
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth a gobeithio am lwyddiant mawr.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Y Cyngor yn derbyn y transnewid hen safle tirlenwi yn hwb Biomrywiaeth ac addysgol llewyrchus.
   Diolch i brosiect tirlenwi gwyllt arloesol. (Troi yn Hafan i fywyd gwyllt) Safle Penhesgyn.
   50 acer o dolydd blodau gwyllt ar y safle ynghyd a 13 pwll dwr newydd a nodweddion gwlypdir, clytwaith o gyneffinoedd, coedwig newydd ac ardaloedd mawnog sy`n gyfoethog o ran carbon. Pob un yn cyfrannu at wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth. Ysgolion Borth wedi gweld y safle.

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Y Cyngor yn derbyn y newyddion calonogol o Ffair Drefadaeth Ynys Cybi yn dychwelyd.
   Amrywiaeth o weithgareddau gwledig, sgiliau coetir a gwehyddu glaswellt y tywod traddodiadol, yn cael eu cynnig i ddatblygu trydedd ffair dreftadiaeth partneriaeth tirwedd Ynys Cybi.
   Digwyddiadau am ddim ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi ym mid Gorffennaf.
   Gweithgareddau eraill :- Crefftau Cefn Gwlad. Gweithgareddau Archeolegol. Ail Berfformiad Canoloesol. Arddangodfeydd Adeiliadau Cwrwgl a Rhwyfo. Gwneud Modelau Clai a Phaentio Wyneb. Saethyddiaeth. Stondinau.

7. Uwch Beiriannydd - Adain Cynnal Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - Barri J Jones.
   Canclwm Siapan - Tyfu yn ymyl y briffordd ar y B5109 (Groeslon Llangwyllog gwaelod Bodffordd)
   Awdurdod Priffyrdd yn ymwybodol o`r broblem. Mae chwyn yn tyfu yma ers ychydig flynyddoedd.
   Bydd his-contractwyr "Languard" yn chwistrellu`r holl safloedd Canclwm Siapan (130 o safleoedd i gyd)
   Yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd. Mae yn blanhigyn anodd iawn ei ddileu`n gyfan gwbl o unrhyw safle.
   Y Cyngor yn ddiolchgar o ymateb y Cyngor Sir ar ol i`r Cyngor Cymdeithas gysylltu. Cafwyd cwynion gan drigolion y Pentref. Eiddo y Cyngor Sir ydyw y fan glaswellt ger y Groeslon. Y Cafn Blodau a`r Meinciau sydd yn berthyn i`r Cyngor Cymdeithas.

8. Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - Huw Percy.
   Swyddog Llwybrau - Arwel Evans.
   Gwyriad Arfaethedig Llwybrau Cyhoeddus Rhifau 3 a 4 Bodffordd.
   Rhan A - B o lwybr rhif 3 (14/003/2 - 14/003/1 -14/021/2.) yn arwain ar hyd trac sy`n dueddol o fod yn fwdlyd oherwydd anifeiliaid, hefyd mae corlannau yn ardal B sy`n gwneud mynediad yn anhwylus. Rhwng B - D mae llwybr rhif 4 yn arwain drwy iard a reit heibio ty Cerrig Duon, Bodffordd.
   Cynygir gwyro Llwybr 3 i redeg drwy`r caeau i`r gorllewin o`r fferm. Mae giatiau cae presennol ym mhwyntiau E ac F a`r bwriad yw i`r gwyriad wneud defnydd o`r rhain. Mae perchennog y tir yn cytuno efo`r cynnig gwyro.
   Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
   Cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. R G Parry.

GOHEBIAETH (ARALL)

9. Conwy Mind. Org. - Rhian Davies Black.
   Gwreiddau Mon / Digartref.
   Prosiect ac egluro sut y gallwn gefnogi rhai o`r teleuoedd yn eich dalgylch.
   Derbyn y wyboaeth heb ddim sylw arbennig.

10. Uchelgias Gogledd Cymru.
    Astudiaethau Dichonoldeb ar gyfer Prosiectau Ynni Glan.
    Lansio Cymorth Refeniw newydd.
    Cynghorwyr wedi cael wybodaeth wedi ei ddarllen, ond nid oedd mwy o sylw. Derbyn a cadw mewn golwg.

11. Iona Stephen Williams.
    Bro Celyn.
    Lecyn gwyrdd rhwng rhif 5 a 6. Wedi gael ei dyllu a wedi codi y pridd i ochr Rhif 5. Nid oes caniatad wedi ei rhoi. Mae "Man Holes" yn eiddo i Dwr Cymru yma ac mae ceir yn parcio arnynt.

A fuasai y Cyngor Sir yn ei lefelu a rhoi tarmac arno.
Mae y Clerc yn dweud fod y Cyngor Cymdeithas wedi bod ar ol hwn flynyddoedd lawer yn ol, gyda addewid ei wneud. Ond mae yn amlwg na fu cynnydd.
Y Clerc wedi anfon copi o e-bost Mrs Williams i`r Cyngor Sir ac yn disgwyl am atebiad.

12. Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethiant Un Llais Cymru.
Newidiadau Pwysig y bwriadwn eu gwneud i`n Trefniadau Llywodraethu.
Y Cyngor yn derbyn. Cynnig Cyng. G Jones ailio Cyng. R R Roberts.

13. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn.

14. Banc Nat West. Llangefni. Hysbysiad fod yn cau am byth ym mis Medi 2025.

RHODDION.

15. Cerebal Palsy Cymru. Pasiwyd y gyfrannu £100. Cynnig Cyng. R G Parry eilio Cyng. G Jones.

PLWYFOL.

16. Cynllun Hyfforddiant Mabwysiadwyd 2025 - 2027.
Ar ol cael ei gyflwyno ym Mehefin i`w ystyried, cymeradwyo a`i fabwysiadu.
Mabwysiadwyd. Cynnig Cyng. R G Parry, eilio Cyng. R R Roberts. (Unfrydol)

17. Mabwysiadu Cynllun Bioamryniaeth a Natur. Mwy o wybodeth erbyn mis Medi 2025.

18. Daeth cais i law i gadw 2 blot yn y Fynwent Gymunedol Bodffordd. Yn anffodus nid ydyw wedi cael ei ddilyn i fynnu. Felly os fydd claddadigaeth yn y cyfamser byd yn rhaid ei rhoi wrth ochr yr un diwethaf.

19. Rhodd.
Ym mis Ebrill pasiodd y Cyngor i gyfrannu £250 i :-
Mrs Teleri M Jones (Rhiant ar ran Cangen yr Urdd Ysgol Bodffordd.
Mae y Cyngor yn siomedig iawn na chafwyd air o ddiolch gan Mrs Jones. Mae yn swm mawr o arian i`w gael, nid ydyw diolch yn costio llawer. Bydd rhaid i`r Cyngor feddwl eto cyn rhoi i unrhyw fudiad o`r Urdd. Mae hyn wedi digwydd o`r blaen hefo swm o £200.
Pasiwyd i anfon gair i Gadeirydd y Llywodraethwyr Ysgol Bodffordd yn dangos ein siomedigaeth.
(Unfrydol)

20. Adroddiad y Cynghorydd Sirol. Ms N Dafydd. Diolch amdano.

MATERION ARIANNOL.

21. Cyfrif Rhedegol. £24,033.05

Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,910.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

22. Clerc £1001.10. (Dau fis Gorffennaf ac Awst) Archwiliad Cymru 2023 / 2024. £335.00. J A Foulkes (Archwiliad Mewnol 2024/25.) £200.00. N Williams (Torri Fynwent 1.) £500.00 Cerebal Palsy Cymru. (Rhodd) £100.00

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. W R Parry.

D Owen (Clerc)